YSGOL Gyfun Aberaeron
Comprehensive School

Stryd Y Fro
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0DT

01545 570217
swyddfa@ygaberaeron.org.uk
Pennaeth / Headteacher:
Owain Jones

Dyddiad: 18/07/18

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd lwyddiannus arall, carwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ffodus iawn fel ysgol o'r gefnogaeth a ddaw o rieni a gofalwyr ein disgyblion. Rydym yn hollol grediniol bod llwyddiant yr ysgol yn ddibynnol ar ymdrechion cydweithredol y disgyblion, eu rhieni a gofalwyr a chyfraniadau'r holl staff.

Hoffwn felly dymuno gwyliau Haf hapus a diogel i'r disgyblion oll. Byddwn yn ei annog i wneud y mwyaf o'r tywydd ffafriol ac o'u cynefin. Mae'n gyfle i dreulio amser gyda theulu a ffrindiau ac i ddysgu gwersi pwysig. Rwy'n herio'r disgyblion i gadw draw o'r cyfryngau cymdeithasol am gyfnodau helaeth o bob diwrnod ac am ddiwrnodau a wythnosau llawn yn ystod y gwyliau fel eu bod yn parhau I ymarfer eu sgiliau cymdeithasol.

Tynnaf eich sylw hefyd at bolisi gwisg yr ysgol. Rydym wedi newid edrychiad y polisi er mwyn gosod ein disgwyliadau mor glir â phosib. Mae disgwyl bod pob disgybl yn cydymffurfio gyda'r polisi hwn ym Mis Medi. Tynnaf eich sylw er enghraifft at y ffaith bod angen i drowser fod mewn arddull glasurol ac nid yn rhy dynn. Nid yw trowser felly o ffabrig sy'n ymestyn ac yn glynu ar y goes yn dderbyniol.

Mi fydd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn aros yn eiddgar am ganlyniadau eu harholiadau wrth gwrs. Mi fydd yr ysgol ar agor ar gyfer canlyniadau Lefel A ac AS am 8.30yb ar Ddydd Iau, Awst 16 - canlyniadau yn y llyfrgell. Ar gyfer disgyblion sy'n derbyn canlyniadau TGAU (Blwyddyn 11 a 10) bydd yr ysgol ar agor am 8.30yb ar Ddydd Iau, Awst 23ain - canlyniadau yn y neuadd. Ni fydd yn bosib rhannu canlyniadau dros y ffon oni bai bod yr ysgol wedi derbyn cais ysgrifenedig o flaen llaw.

Dyddiad ail-gychwyn ar gyfer disgyblion Ysgol Gyfun Aberaeron yw Dydd Mawrth, Medi 4ydd. Tan hynny, diolch am eich cydweithrediad parod bob amser.

Yn gywir,

Owain A. Jones